Chwarae Cymru Play Wales

# Pecyn Swydd

## Swyddog Cyfathrebu a Digwyddiadau

Diolch ichi am eich ymholiad ynghylch y swydd uchod.

Mae'r Pecyn Swydd hwn yn cynnwys:

- Ffurflen gais
- Swydd-ddisgrifiad/Manyleb person
- Ffurflen monitro cyfle cyfartal.

Mae'n bwysig ichi ddarllen gofynion y fanyleb person a bod y wybodaeth yr ydych yn ei gyflwyno yn eich cais yn disgrifio sut yr ydych yn ateb y gofynion hyn – bydd y broses tynnu rhestr fer yn defnyddio criteria'r fanyleb person i benderfynu pwy i'w gwahodd am gyfweliad.

Ble bynnag y bo modd, defnyddiwch **enghreifftiau** i ddangos tystiolaeth o'r profiad a'r sgiliau sydd gennych a chofiwch ddweud wrthym sut y bydd eich rhinweddau personol yn golygu eich bod yn berson y byddwn ei eisiau ar ein tîm.

Mae Chwarae Cymru yn ymfalchïo yn y ffaith ei fod yn defnyddio tôn llais gwreiddiol wrth greu deunyddiau ysgrifenedig. Hoffem i chithau wneud yr un peth. Rydym felly'n gofyn i chi ymatal rhag defnyddio offer deallusrwydd artiffisial (AI) i gwblhau eich cais. Nodwch y byddwn yn defnyddio offer gwirio AI i sicrhau nad yw ymgeiswyr wedi defnyddio AI.

Rydym yn cadw'r hawl i gau'r swydd i geisiadau cyn y dyddiad cau a hysbysebwyd.

Dylid dychwelyd y ffurflen gais a'r ffurflen cyfle cyfartal, wedi eu cwblhau, at: swyddi@chwarae.cymru

**Dyddiad cau: Dydd Gwener 10 Gorffennaf 2026**

**Cynhelir y cyfweliadau yr wythnos yn dechrau 13 Gorffennaf 2026**

Cynhelir y cyfweliadau wyneb yn wyneb yn Nhŷ Parc, Heol y Brodyr Llwydion, Caerdydd CF10 3AF.

Edrychwn ymlaen at dderbyn eich cais cyflawn.

Os hoffech sgwrs anffurfiol am y swydd hon, galwch 02920 486050 a gofyn i siarad gyda Danielle.

## Am Chwarae Cymru

Chwarae Cymru yw'r elusen genedlaethol annibynnol dros chwarae plant yng Nghymru.

Rydym yn gweithio i gynyddu ymwybyddiaeth ynghylch angen a hawl plant ac arddegwyr i chwarae ac i hyrwyddo arfer da ar bob lefel o'r broses wneud penderfyniadau ac ym mhobman ble y gall plant chwarae. Rydym yn cynnig cyngor ac arweiniad i gefnogi pawb sydd â diddordeb mewn neu sy'n gyfrifol am ddarparu ar gyfer chwarae plant, fel y bydd Cymru un diwrnod yn wlad ble y byddwn yn cydnabod ac yn darparu'n dda ar gyfer anghenion chwarae pob plentyn.

**Gweledigaeth a chenhadaeth Chwarae Cymru**

**Gweledigaeth**: Dyfodol ble caiff chwarae ei werthfawrogi yng Nghymru am ei fod yn hanfodol i blentyndod iach a hapus. Gwlad ble mae plant yn rhydd i archwilio, darganfod, datblygu a thyfu drwy chwarae.

**Cenhadaeth:** Ymgyrchu dros Gymru chwarae-gyfeillgar trwy arwain gyda bwriad, cydweithio gyda chynwysoldeb, addysgu gyda brwdfrydedd, a chefnogi gyda sensitifrwydd.

**Nodau**

- **Polisi**: i weithio gydag unigolion, sefydliadau a rhwydweithiau i hysbysu datblygu polisi a materion sy'n ymwneud â chwarae plant yng Nghymru
- **Gwasanaeth Cyfathrebu**: i hyrwyddo gwerth chwarae plant yng Nghymru trwy ddarparu gwybodaeth gyfredol, amserol i'n rhanddeiliaid
- **Cyngor a chefnogaeth**: i ddarparu gwybodaeth arbenigol ar bob mater sy'n ymwneud â, ac sy'n effeithio ar, chwarae plant
- **Datblygu'r gweithlu:** i gyfrannu at ddatblygiad proffesiynol y gweithlu chwarae a gwaith chwarae yng Nghymru.

Am fwy o wybodaeth, ymwelwch â'n gwefannau:
www.chwarae.cymru | www.plentyndodchwareus.cymru

## Ein buddion

**Gwyliau blynyddol**

Mae Chwarae Cymru'n cynnig pecyn gwyliau blynyddol hael o 29 diwrnod yn ogystal â diwrnodau gwyliau banc a gwyliau cyhoeddus (Cymru a Lloegr) bob blwyddyn. Yn ogystal, bydd y lwfans gwyliau blynyddol yn cynyddu yn unol â blynyddoedd o wasanaeth.

**Cyflog**

Mae Chwarae Cymru'n cynnig cyflogau cystadleuol gyda chodiadau blynyddol yn eich graddfa gyflog wedi un flwyddyn lawn o wasanaeth.

**Pensiwn**

Rydym yn cynnig cyfle ichi ymuno â Chynllun Pensiwn Llywodraeth Leol gyda chyfraniadau cyflogwr hael.

**Gweithio'n ystwyth**

Rydym yn gweithredu amgylchedd gweithio hybrid ar gyfer rolau cymwys a hyblygrwydd ar draws yr wythnos waith.

**Gofal iechyd**

Fel un o weithwyr Chwarae Cymru, cewch fynediad i HealthShield, cynllun gofal iechyd sy'n cynnig nifer o fuddion, yn cynnwys mynediad i weithwyr gofal iechyd proffesiynol, cynllun gostyngiadau ar siopa ac ad-daliadau am ffïoedd optegwyr a deintyddion.

## Swydd-Ddisgrifiad

Mae cyfathrebu'n ganolog i drosglwyddo gweledigaeth a chennad Chwarae Cymru. Mae'r rôl hon yn cefnogi sut y byddwn yn cyfathrebu gyda'n cynulleidfaoedd ac yn helpu i sicrhau bod ein gwaith yn weladwy, yn hygyrch ac yn ddiddorol. Mae'r Swyddog Cyfathrebu a Digwyddiadau yn gwneud cyfraniad allweddol i gynllunio, trosglwyddo a gwerthuso digwyddiadau a gweithgarwch cyfathrebu o safon uchel, gan weithio'n agos gyda chydweithwyr ar draws y sefydliad.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn siaradwr Cymraeg gyda phrofiad o waith cyfathrebu a chydlynu digwyddiadau, a gydag ymrwymiad cryf i ymarfer cynhwysol, hygyrch a dwyieithog.

### Dyletswyddau

### Cyfathrebu

- Creu cynnwys ysgrifenedig clir, diddorol a chyfredol ar gyfer gwefannau Chwarae Cymru.
- Rheoli diweddariadau dydd-i-ddydd i'r wefan gan ddefnyddio system rheoli cynnwys ffynhonnell agored.
- Cyfrannu at fonitro, gwerthuso a datblygiad parhaus gwasanaeth gwybodaeth Chwarae Cymru.
- Cydlynu cynnwys ysgrifenedig dwyieithog a lluniau ar draws platfformau'r cyfryngau cymdeithasol i gyrraedd ac ymgysylltu â chynulleidfaoedd allweddol.
- Cydlynu gweithgareddau e-farchnata i hyrwyddo cyhoeddiadau, gwasanaethau a digwyddiadau Chwarae Cymru.
- Llunio a dosbarthu e-fwletin misol Chwarae Cymru.
- Dylunio adnoddau gan ddefnyddio templedi sy'n bodoli eisoes.
- Cynorthwyo i ddosbarthu adnoddau Chwarae Cymru.
- Cynorthwyo gyda chomisiynu gwaith, a chysylltu gyda chyflenwyr allanol, yn cynnwys gwasanaethau gwefan, dylunio, argraffu a chyfieithu.

### Digwyddiadau

- Gweithio gyda chydweithwyr i gytuno ar gynnwys, amcanion ac arddulliau cyflawni digwyddiadau.
- Cydlynu agweddau gweinyddol, logistaidd a thechnegol digwyddiadau ar-lein ac wyneb yn wyneb.
- Dynodi a chysylltu gyda chanolfannau, cyflenwyr a phartneriaid digwyddiadau mewn cydweithrediad â'r Rheolwraig Gweithrediadau.
- Gweithio'n agos gyda'r Rheolwraig Cyfathrebu i hyrwyddo digwyddiadau'n effeithiol.
- Cefnogi'r gwaith o baratoi deunyddiau ac adnoddau ar gyfer digwyddiadau.

## Manyleb y person

### Hanfodol

- Sgiliau cyfathrebu llafar ac ysgrifenedig rhagorol yn y Gymraeg a'r Saesneg.
- O leiaf ddwy flynedd o brofiad mewn rôl â ffocws ar gyfathrebu.
- Gallu profedig o ysgrifennu ar gyfer ystod eang o gynulleidfaoedd yn y Gymraeg a'r Saesneg.
- Profiad o ysgrifennu ar gyfer gwefannau a sianelau cyfryngau cymdeithasol.
- Profiad o ddefnyddio pecyn Adobe InDesign.
- Profiad o weithio gyda systemau rheoli cynnwys gwefan.
- Profiad o ddefnyddio platfformau e-farchnata fel Mailchimp.
- Gallu cyfieithu darnau bychan o destun yn gywir rhwng y Gymraeg a'r Saesneg.
- Profiad o ddefnyddio platfformau'r cyfryngau cymdeithasol fel Facebook, LinkedIn ac Instagram.
- Dealltwriaeth o brosesau cynllunio a throsglwyddo digwyddiadau, yn cynnwys platfformau ar-lein fel Microsoft Teams a Zoom.
- Llygad barcud am fanylion a sgiliau darllen proflenni cryf.
- Sgiliau trefnu cadarn ar ddawn i reoli blaenoriaethau sy'n cystadlu am eich amser.
- Gallu gweithio'n annibynnol ac i derfynau amser.
- Gallu ymchwilio, casglu a phrosesu gwybodaeth yn effeithlon.
- Agwedd gydweithredol a hyblyg tuag at waith tîm.
- Parodrwydd i weithio'n hyblyg ac i deithio ar hyd a lled Cymru pan fo angen.

### Dymunol

- Gradd neu gymhwyster cyfwerth mewn pwnc perthnasol.
- Preswylio yng Nghymru.
- Profiad o neu ddawn gyda chyfathrebu gweledol, yn cynnwys creu asedau.
- Profiad o greu cynnwys fideos byr.
- Dealltwriaeth o ofynion diogelu data a phreifatrwydd.

### Telerau ac amodau

Mae'r swydd hon yn un gweithio o gartref yn bennaf, gyda'r angen am rywfaint o weithio yn y swyddfa a theithio trwy Gymru.

**Lleoliad y swyddfa bresennol**: Tŷ Parc, Heol y Brodyr Llwydion, Caerdydd CF10 3AF
**Oriau gweithio**: 30 awr yr wythnos o Dydd Llun i Ddydd Gwener
**Cyflog**: £28,713 (cyfwerth ag amser llawn £35,312) NJC 24-27
**Contract:** parhaol rhan-amser – cyfnod prawf o chwe mis.